# Cofnodion cryno - Y Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar Newid Hinsawdd

Lleoliad:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Mai 2017

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| | Keith Jones (Cadeirydd)<br>Paul Allen<br>Haf Elgar<br>Yr Athro Stuart Irvine<br>Yr Athro Nick Jenkins<br>Chris Jofeh<br>Shea Jones<br>Yr Athro Ian Knight<br>Jess McQuade<br>Yr Athro Nick Pidgeon<br>David Reilly<br>Neville Rookes<br>Yr Athro James Scourse<br>Jeremy Smith<br>Emma Thomas |

| | |
|---|---|
| | Dr Lorraine Whitmarsh |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Ysgrifenyddiaeth)<br>Martha Da Gama Howells (Ysgrifenyddiaeth)<br>Louise Andrewartha (Ysgrifenyddiaeth)<br>Chloe Corbyn (Ymchwilydd) |

## 1 Minutes of the meeting of the Expert Reference Group on Climate Change

### Y Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar Newid yn yr Hinsawdd

Cofnodion y cyfarfod ar 22 Mai 2017 – Tŷ Hywel, Bae Caerdydd

**Camau gweithredu**

Tîm clercio'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i ddrafftio llythyr at Lywodraeth Cymru, ar ran y Grŵp, i ofyn beth mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud ynghylch newid hinsawdd.

Tîm clercio'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn am friff technegol gan Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU ac i wahodd cynrychiolwyr i gyfarfod o'r Grŵp Cyfeirio Arbenigol ar Newid yn yr Hinsawdd (y Grŵp) yn y dyfodol.

Tîm clercio'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn i Lywodraeth Cymru pryd y mae'n bwriadu cyhoeddi'r cyngor a gafwyd gan Bwyllgor y DU ar y newid hinsawdd.

Tîm clercio'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn i Lywodraeth Cymru am wybodaeth am dargedau ansoddol.

Aelodau'r grŵp i ddweud wrth y Cadeirydd os ydynt am fod yn rhan o'r grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer data.

Tîm clercio'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i ddosbarthu fframwaith/profforma i helpu aelodau'r Grŵp i lunio cwestiynau.

Aelodau'r grŵp i gysylltu â'r Cadeirydd gyda phynciau a awgrymwyd a chwestiynau i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig i ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet yn sesiwn graffu'r Pwyllgor yn ddiweddarach eleni.

## Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

1. Cafwyd ymddiheuriadau gan Martin Bishop, Mari Arthur, Steve Brooks, yr Athro Gareth Wyn-Jones a'r Athro Calvin Jones

## Ethol y Cadeirydd

2. Etholwyd Keith Jones (KJ) yn Gadeirydd y Grŵp. Cyflwynodd KJ ei hun i'r Grŵp.

## Y wybodaeth ddiweddaraf gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

3. Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Eurgain Powell (EP) am waith Swyddfa'r Comisiynydd. Canolbwyntiodd ar bedwar maes:

– Pwrpas a blaenoriaethau polisi Swyddfa'r Comisiynydd.

– Gweithio gyda thîm datgarboneiddio Llywodraeth Cymru.

– Gwaith ar drafnidiaeth a'r amgylchedd.

– Gwaith ar asesiadau llesiant.

4. Cytunodd EP i ddarparu gwybodaeth bellach i'r Grŵp am nifer o faterion. Darparwyd papur ar wahân i'r Grŵp.

## Trafod papur ar linellau amser a thargedau

5. Cyflwynodd Jess McQuade (JM) a Haf Elgar (HE) bapur trafod.

6. Soniodd JM am yr angen am gyd-ddealltwriaeth o bolisi Llywodraeth Cymru ac ymrwymiadau ar y newid hinsawdd. Awgrymodd y gallai'r grŵp ddefnyddio'r targedau a'r cerrig milltir yn y papur fel sail wrth gynllunio'r ffordd orau o gefnogi'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig o ran craffu ar Lywodraeth Cymru.

7. Nodwyd bod cryn dipyn o'r polisi perthnasol heb gael ei ddatganoli a'i fod yn gyfnewidiol ar lefel y DU. Dywedodd HE ei bod yn ymwneud â sut y mae Cymru yn elwa yn y meysydd nas datganolwyd. Soniodd JM am y ffaith i gyhoeddiadau gael eu gwneud am bolisïau/rhaglenni a chanddynt ddimensiwn newid hinsawdd, ond nid oes pwynt canolog i gydgysylltu'r wybodaeth honno.

8. Yn ystod y drafodaeth, awgrymwyd y dylai'r Grŵp greu rhestr o gamau gweithredu, yn seiliedig naill ai ar gyfleoedd i ddylanwadu ar Lywodraeth Cymru neu

gan y fframwaith cyfreithiol a'r hyn y mae angen ei wneud i ddal Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**9.** Codwyd sawl mater arall yn ystod y trafodaethau, gan gynnwys:

– Dylid seilio craffu ar Lywodraeth Cymru ar y pum ffordd o weithio.

– Mae angen gwell dealltwriaeth o'r metrigau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio ac o'r ffigurau llinell sylfaen a ddefnyddir. Cododd nifer o aelodau'r grŵp gwestiynau am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei defnyddio fel sail ar gyfer ei pholisïau, gan gynnwys rhagamcanion hyd at 2050.

– Byddai cyfle i randdeiliaid ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ei chynllun cyflenwi lleihau carbon.

– Dylai'r Grŵp gytuno ar fethodoleg glir ar gyfer ei waith monitro.

– Gallai'r Grŵp geisio gwirio a yw targedau yn cael eu cyflawni a hefyd geisio dylanwadu ar y gwaith o osod targedau. Bydd Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU yn cynghori Llywodraeth Cymru ar y mater hwn yn yr hydref; felly bydd hynny'n gyfle i'r Grŵp gymryd rhan.

– Cafodd y targed 2050 ei osod yn Neddf yr Amgylchedd, sy'n cynnwys darpariaeth i'r targed hwnnw gael ei adolygu.

– Awgrymwyd y gellid defnyddio nodau datblygu byd-eang Mission 2020 fel adnodd.

– Nodwyd i Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU gynnal adolygiad o effaith newid hinsawdd ar draws y DU ac y bydd Llywodraeth Cymru'n integreiddio hyn yn ei gwaith. Cytunodd y Grŵp i glywed yn uniongyrchol gan Bwyllgor y DU.

## Trafod y gwaith y dyfodol

**10.** Atgoffodd y Clerc y Grŵp fod modd iddo gael data gan Lywodraeth Cymru drwy'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Soniodd hefyd y bydd sesiwn graffu flynyddol y Pwyllgor ar newid hinsawdd yn cael ei chynnal ddiwedd mis Hydref neu ddechrau mis Tachwedd ac y dylai gwaith y Grŵp lywio'r broses honno. Cytunodd y Grŵp i baratoi adroddiad i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig, gan awgrymu meysydd iddo ganolbwyntio arnynt o bosibl yn ei sesiwn gyda'r Ysgrifennydd Cabinet (Lesley Griffiths AM).

**11.** Cytunodd y grŵp i baratoi cynigion ar gyfer cwestiynau i'r sesiwn graffu flynyddol cyn ei gyfarfod nesaf, a'r rheini yn seiliedig ar dempled a ddarperir gan yr ysgrifenyddiaeth.

12. Cytunodd y Grŵp i wahodd cynrychiolydd o Bwyllgor Newid Hinsawdd y DU i'w gyfarfod nesaf.

13. Cytunwyd y byddai aelodau'r Grŵp yn ffurfio is-grŵp i ystyried data.

## Dyddiad y cyfarfod nesaf

14. Awgrymwyd y dylid cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Medi. Byddai'r dyddiad yn cael ei gadarnhau yn fuan wedyn.